Cymorth Cynllunio Cymru | Planning Aid Wales

Cylchlythyr Cymorth Cynllunio Cymru

Mehefin 2009

Yn y rhifyn yma...

- Ymgysylltiad rhanddalwyr yn Sir Gaerfyrddin
- Arferion da mewn Datganiadau Mynediad
- *Sôn am Strydoedd*
- Rhybudd e-bost o geisiadau cynllunio
- Astudiaethau achos
- Digwyddiadau
- Cysylltu â Chymorth Cynllunio Cymru

Gwahoddiad

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymorth Cynllunio Cymru a Noson Gwis

Mae'n bleser gan Cymorth Cynllunio Cymru eich gwahodd i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhelir ar Orffennaf 13eg am 4.30yp. Y lleoliad bydd y *Basement Bar* yn adeilad Undeb Myfyrwyr Bangor.

Yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol bydd bwffe a Noson Gwis ar gyfer gwirfoddolwyr Cymorth Cynllunio Cymru a gwesteion.

Mae amserlen y dydd fel a ganlyn:

4.30yp i 5.15yp Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

5.30yp i 6.00yh Bwffe

6.30yh i 8.30yh Noson Gwis

Mae croeso i bawb, ond cofiwch gofrestru erbyn Gorffennaf 3ydd trwy ddefnyddio'r ffurflen amgaeëdig.

Cost y cwis fydd £1 yr un (i'w dalu ar y noson), gyda'r holl elw'n mynd i Gymorth Cynllunio Cymru. Nid oes angen gwybodaeth arbenigol am gynllunio!

Bydd croeso i dimau ac unigolion gystadlu yn y cwis. Rydym yn chwilio am dimau o bump neu lai. Os ydych am gofrestru fel unigolyn, yna bydd modd i chi ymuno a thîm ar y noson.

Am fanylion pellach am y digwyddiad, cysylltwch â Marika Fusser yn swyddfa Cymorth Cynllunio Cymru:

Ebost: post@cymorthcynlluniocymru.org.uk

Ffôn: 01286-882834

Ymgysylltiad rhanddalwyr yn Sir Gaerfyrddin

Yn ôl i'r brig

Mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Sir Caerfyrddin i gynorthwyo gydag ymgysylltiad rhanddalwyr yn ystod camau cyntaf paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) i'r sir. Roedd y gwaith (nawr yn gyflawn) wedi golygu paratoi rhaglen ymgysylltu manwl ar gyfer y cyfnod hyd at ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth a Ffefrir, a gweithio gyda thîm rhag-gynllunio y cyngor i gyflwyno dau weithdy ar gyfer ymgysylltu rhanddalwyr allweddol, y cyntaf yn Hydref 2008 a'r ail yn Chwefror 2009. Buom hefyd yn hwyluso gweithdy cyfochrog yn Chwefror pryd y gwahoddwyd pob cyngor tref a chymuned yn y sir.

Roedd dau brif amcan i brosiect ymgysylltiad y CDLl. Yn gyntaf, i roi'r wybodaeth hanfodol i'r ystod eang o sefydliadau rhanddalwyr i'w galluogi i ddeall y camau cynnar o osod strategaeth sydd yn y broses o greu cynllun datblygu, a'u rôl bwysig hwy ynddo. Yn ail, i ennyn trafodaeth ynghylch y materion strategol allweddol ymysg y rhanddalwyr, fyddai'n arwain at amcanion strategol allweddol y Cynllun, ac yna i ddatblygu opsiynau strategol gofodol i gyflawni'r amcanion a gytunwyd arnynt.

Arferion da mewn Datganiadau Mynediad

Yn ôl i'r brig

Bellach gofynnir am 'Ddatganiadau Mynediad' gyda'r rhan fwyaf o geisiadau cynllunio nad ydynt yn ymwneud â newidiau bach i dai. Eu diben yw dangos pa mor rhwydd neu anodd y byddai i bobl, yn cynnwys yr anabl, ddefnyddio'r adeilad arfaethedig. Y syniad yw bod datblygwyr yn dechrau meddwl ynghylch materion mynediad yn gynnar yn y broses o gynllunio adeilad neu safle. Yn anffodus, nid yw hyn yn digwydd bob tro, ac nid yw llawer o'r Datganiadau Mynediad a gyflwynwyd hyd yn hyn o gymorth o ran persbectif y Grwpiau Mynediad, sy'n ceisio sicrhau bod pob datblygiad newydd â mynediad addas i bawb.

Dyma pam mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu Cymorth Cynllunio Cymru i gynhyrchu llyfryn canllaw byr, hawdd-ei-ddarllen ar sut i baratoi Datganiad Mynediad. Y prif gynulleidfa ar gyfer y llyfryn yw datblygwyr ac asiantwyr sydd ar fin cyflwyno cais cynllunio. Fe'i bwriedir hefyd ar gyfer swyddogion cynllunio sy'n ystyried Datganiadau Mynediad gyda cheisiadau cynllunio, ynghyd â Grwpiau Mynediad sydd efallai am roi sylwadau arnynt.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda Grwpiau Mynediad ac arbenigwyr eraill i greu'r canllaw hwn ac yn casglu adborth gan randdalwyr mewn sesiynau grwpiau ffocws. Disgwylir cyhoeddi'r llyfryn cyn y Nadolig, ac wedi hynny bydd ar gael yn rhad ac am ddim gan Gymorth Cynllunio Cymru ac i'w lawrlwytho o ystod o wefannau.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cyfrannu at y prosiect, yna cysylltwch â Marika Fusser ar 01286 882 834 neu marika@cymorthcynlluniocymru.org.uk.

Sôn am Strydoedd - Ymgyrch Anabledd Cymru

Yn ôl i'r brig

Mae ymgyrch Anabledd Cymru *Sôn am Strydoedd* yn canolbwyntio ar hyrwyddo mynediad cynhwysol i siopau a gwasanaethau'r stryd fawr. Amcan yr ymgyrch yw amlygu gwir ddarlun mynediad i strydoedd mawr ledled Cymru. Fe'i lansiwyd ym mis Tachwedd 2008 a bydd yn rhedeg trwy gydol 2009. Ym mis Medi, bwriedir cyhoeddi adroddiad ymgyrch sydd wedi ei

anelu at ddylanwadu ar benderfyniadau allweddol.

Am fwy o wybodaeth ynghylch ymgyrch *Sôn am Strydoedd* cysylltwch â Rhyan Berrigan, Swyddog Polisi (Mynediad a Thrafnidiaeth), ar rhyan.berrigan@disabilitywales.org.

Rhybudd e-bost ynghylch ceisiadau cynllunio

Yn ôl i'r brig

Os ydych am sicrhau eich bod yn dod i wybod am bob cais cynllunio a gyflwynir yn eich ardal, gallwch edrych ar geisiadau yn rhestr wythnosol eich awdurdod cynllunio lleol – neu gellir danfon rhybudd ebost atoch. Gallwch danysgrifio i'r gwasanaeth rhybudd am ddim ar www.planningalerts.com.

Mae'r gwirfoddolwyr sy'n rhedeg y wefan hon yn coladu gywbodaeth ar geisiadau cynllunio o (ar hyn o bryd) 325 o wefannau awdurdodau cynllunio lleol ac yn defnyddio codau post i weithio allan pa rai o'u tanysgrifwyr sy'n byw yn agos at safle cais. Danfonir ebost at y bobl hyn gyda dolen i'r manylion cais ar wefan yr awdurdod cynllunio lleol.

Os yw eich awdurdod cynllunio lleol wedi ei restru ar www.planningalerts.com/about.php (yn gyfredol, mae 10 allan o'r 25 awdurdod cynllunio yng Nghymru wedi eu rhestru), yna byddwch yn derbyn rhybudd ar unwaith. Os nad yw'ch awdurdod ar y rhestr eto, peidiwch â diagloni oherwydd gallwch gofrestru beth bynnag. Mae'r gronfa ddata yn dal i dyfu ac unwaith y bydd eich awdurdod wedi ei gynnwys byddwch yn derbyn y rhybudd.

Astudiaethau achos

Yn ôl i'r brig

'Gwneud sylwadau effeithiol ar geisiadau cynllunio'

Yn ddiweddar, cynhaliodd Cymorth Cynllunio Cymru y cyntaf mewn cyfres o sesiynau hyfforddi ar gyfer cynghorau tref a chymuned, dan y teitl '*Gwneud sylwadau effeithiol ar geisiadau cynllunio'* gyda chyngor cymuned Melindwr.

Treial oedd y sesiwn i gynorthwyo mewn paratoi cyfres gynhwysfawr o ddeunyddiau hyfforddi ar gynllunio ar gyfer cynghorau tref a chymuned, gyda grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Roedd y sesiwn yn un rhyngweithredol iawn, yn defnyddio gwaith grŵp ac astudiaethau achos. Roedd rhain yn helpu'r cyfranogwyr i weithio allan, ar y cyd, pa faterion oedd y rhai mwyaf perthnasol i roi sylwadau arnynt a'r ffordd orau i gyflwyno eu sylwadau i'r awdurdod cynllunio lleol. Gwnaeth i sesiwn y cyfranogwyr hefyd yn ymwybodol o rôl bwysig polisi cynllunio a phwysigrwydd cymryd rhan ym mharatoad eu Cynllun Datblygu Lleol a dogfennau polisi eraill.

Cynhalwyd y seswin, a barhaodd ychydig dros ddwy awr, drwy gyfrwng y Gymraeg gyda deunyddiau dwyieithog. Dywedodd Dafydd Fryer o Gyngor Cymuned Melindwr:

"Cawsom weithdy hynod o werthfawr gan Marika Fusser o Gymorth Cynllunio Cymru yn ddiweddar. Roedd pwyslais y 'gwersi' ar beth ddylai rhywun ganolbwyntio wrth ymateb i gais gynllunio, a sut i lunio llythyr a fydd yn debyg o gael effaith. Ymateb unfrydol aelodau y cyngor, sy'n cymysgiad o griw sefydlog a rhai hollol newydd, bod y noson wedi bod yn hynod o ddifyr a buddiol. Yn sicr mae manteision i'r cyngor o gael rhagor o hyfforddiant achlusurol fel hyn yn y dyfodol yn amlwg."

'Gwella cyfathrebu gyda'ch awdurdod cynllunio lleol'

Cynhaliasom hefyd sesiwn hyfforddi gyda Chyngor Cymuned Owrtyn ar y pwnc '*Gwella cyfathrebu gyda'ch awdurdod cynllunio lleol'*. Eto treial oedd hwn ar gyfer y prosiect a nodir uchod.

Yn ystod y gweithdy dechreuodd y cyfranogwyr archwilio ble oedd problemau a rhwystredigaethau yn y cyfathrebu rhyngddynt hwy a'u hawdurdod cynllunio lleol ar hyn o bryd, ac hefyd beth allai'r rhesymau a'r cyfyngiadau fod tu ôl i hyn. Yna symudasant ymlaen yn raddol i feddwl ynghylch beth y gallant hwy ei wneud i wella'r sefyllfa, a buont yn ystyried esiampl go iawn o siarter cynllunio a gytunwyd rhwng cyngor tref a'i awdurdod cynllunio lleol.

Gorffennodd y sesiwn gyda chynllun gweithredu ar gyfer y camau cyntaf y byddai'r cyngor yn eu cymryd yn dilyn yr hyfforddiant, oedd yn cynnwys gweithio gyda chynghorau tref a chymuned eraill yn eu hardal ynghyd â'r awdurdod cynllunio lleol i archwilio gwell ffyrdd o gydweithio ac, o bosib, ffurfioli hyn mewn siarter.

Dywedodd Jacky Maskall o Gyngor Cymuned Owrtyn am yr hyfforddiant:

"Mae'r rhai hynny ohonom a fynychodd y sesiwn ar wella cyfathrebu gyda'n awdurdod cynllunio lleol a roddwyd gan Gymorth Cynllunio Cymru yn credu ein bod yn ffodus iawn i fynychu'r sesiwn hyfforddi yma. Rydym yn unfrydol yn dweud mai hon oedd y sesiwn mwyaf defnyddiol y bu inni fynychu, agorwyd ein llygaid gan yr hyfforddiant parthed bod yn weithredol a newid sefyllfaoedd nad oeddem yn hapus yn eu cylch, yn hytrach nag eistedd a chwyno. Rydym eisoes wedi cymryd y cam cyntaf ac yn cyfarfod Cadeiryddd ein awdurdod cynllunio lleol nes ymlaen y mis hwn. Rydw i'n bersonol yn argymhell bod pawb (yn enwedig y rhai hynny â diddordeb mewn cynllunio) sydd â'r cyfle, yn mynychu'r sesiwn hyfforddi yma."

Os hoffech wybod mwy am hyfforddiant ar gyfer cynghorau tref a chymuned, cysylltwch â Marika Fusser ar 01286 882 834 neu marika@cymorthcynlluniocymru.org.uk.

Digwyddiadau

Yn ôl i'r brig

Os hoffech wybod mwy am unrhy un o'r digwyddiadau a restrir, cysylltwch â ni (gweler isod).

17-23 Mehefin (lleoliadau amrywiol ledled Cymru)

Hyfforddiant ymgysylltu a'r gymuned i gynllunwyr gan Gymorth Cynllunio Cymru.

24 Mehefin, Caerdydd

Derbyniad Cymorth Cynllunio Cymru ac RTPI Cymru ar gyfer Aelodau Cynulliad yn adeilad y Senedd.

13 Gorffenaf, Bangor

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymorth Cynllunio Cymru a Noson Gwis. Am fanylion gweler erthygl gyntaf y cylchlythyr hwn.

8 Medi, Llandrindod

Cyfarfod grwp ffocws ar lyfryn canllaw ar Ddatganiadau Mynediad a hwylusir gan Gymorth Cynllunio Cymru.

Cysylltu â Chymorth Cynllunio Cymru

Llinell Gymorth: 02920 45765

Gwefan: www.cymorthcynlluniocymru.org.uk

Prif swyddfa

Cymorth Cynllunio Cymru, Siambrau'r Bae, Stryd Gorllewin Bute, Caerdydd CF10 5BB

Ffôn: 02920 464 225

Ebost: post@cymorthcynlluniocymru.org.uk

Staff Cymorth Cynllunio Cymru

Elwyn Thomas

Prif Weithredwr

Ffôn: 02920 464 225

Ebost: elwyn@cymorthcynlluniocymru.org.uk

Marika Fusser

Gweithiwr Datblygu'r Gogledd

Ffôn: 01286 882 834

Ebost: marika@cymorthcynlluniocymru.org.uk

James Davies

Cynlluniwr a Rheolwr Achosion

Ffôn: 02920 464 205

Ebost: james@cymorthcynlluniocymru.org.uk

Kay Sharman

Gweinyddydd

Ffôn: 0290 464 225

Ebost: post@cymorthcynlluniocymru.org.uk

Cymorth Cynllunio Cymru - Gweithio tuag at system gynllunio fwy teg